

Templed Cytundeb Polisi Defnydd Derbyniol

Rhieni / Gwarcheidwaid Cyfreithiol

Mae technolegau newydd yn rhan annatod o fywydau plant a phobl ifanc yn y gymdeithas fodern, o fewn ysgolion ac yn eu bywydau y tu allan i'r ysgol. Mae'r rhyngwrwd a thechnolegau gwbyodaeth a chyfathrebu digidol eraill yn offer pwerus sy'n agor cyfleoedd newydd i bawb. Gall y technolegau hyn ysgogi trafodaeth, hybu creadigrwydd ac ymwybyddiaeth o gyd-destun gan hyrwyddo dysgu effeithiol. Dylai fod hawl gan bobl ifanc i gyrchu'r rhyngwrwd yn ddiogel bob amser.

Mae'r Polisi Defnydd Derbyniol hwn yn ceisio sicrhau:

- bydd pobl ifanc yn ddefnyddwyr cyfrifol ac yn ddiogel pan fyddant yn defnyddio'r rhyngwrwd a thechnolegau cyfathrebu eraill at ddefnydd addysgol, personol ac adloniadol.
- bod systemau TGCh yr ysgol a defnyddwyr wedi'u diogelu rhag camddefnydd damweiniol neu fwriadol a allai beryglu diogelwch systemau a defnyddwyr.
- bod rhieni a gofalwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd e-ddiogelwch a'u bod yn ymwneud ag addysg ac arweiniad pobl ifanc o ran eu hymddygiad ar-lein.

Bydd yr ysgol yn ceisio sicrhau y bydd mynediad da gan *fyfyrwyr / ddisgyblion* i TGCh er mwyn gwella eu dysgu ac yn ei dro bydd yn disgwyl i *fyfyrwyr / disgyblion* gytuno i fod yn ddefnyddwyr cyfrifol. Mae copi o'r Polisi Defnydd Derbyniol Myfyrwyr / Disgyblion wedi'i atodi i'r ffurflen ganiatâd hon, felly bydd rhieni / gofalwyr yn ymwybodol o ddisgwyliadau'r ysgol o'r bobl ifanc sydd yn ei gofal.

Rhaid i rieni lofnodi'r ffurflen ganiatâd isod i ddangos eu bod yn cefnogi'r ysgol yn yr agwedd bwysig hon ar waith yr ysgol.

Defnydd Derbyniol o'r Rhyngwrwd

Gwn y bydd rhaid i'm plentyn gytuno â Chtundeb Defnydd Derbyniol ac mae wedi cael, neu bydd yn cael, addysg e-ddiogelwch i'w helpu i ddeall pwysigrwydd defnydd diogel o TGCh - yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol. Mae copi ohono wedi'i atodi. Argymhellir eich bod yn ei ddarllen gyda'ch plentyn i wneud yn siŵr ei fod yn ei ddeall.

Deallaf y bydd yr ysgol yn cymryd pob cam rhesymol, gan gynnwys systemau monitro a hidlo, i sicrhau y bydd pobl ifanc yn ddiogel pan fyddant yn defnyddio'r rhyngwrwd a systemau TGCh. Deallaf hefyd na all yr ysgol fod yn gyfrifol yn y pen draw am natur a chynnwys y deunyddiau a gyrchir ar y rhyngwrwd a defnyddio technolegau symudol.

Deallaf y caiff gweithgarwch fy mhlentyn ar systemau TGCh ei fonitro a bydd yr ysgol yn cysylltu â mi os oes unrhyw bryderon am unrhyw achosion posibl o dorri'r Polisi Defnydd Derbyniol.

Byddaf yn annog fy mhlentyn i fabwysiadu defnydd diogel o'r rhyngwrwd a thechnolegau digidol yn y cartref a byddaf yn rhoi gwybod i'r ysgol os oes unrhyw bryderon gennyf ynghylch e-ddiogelwch fy mhlentyn.

Defnyddio Delweddau Digidol / Fideo

Mae defnyddio delweddau digidol / fideo yn chwarae rhan bwysig mewn gweithgareddau dysgu. Gall myfyrwyr ac aelodau staff ddefnyddio camerâu digidol i gofnodi tystiolaeth o weithgareddau mewn gwersi a'r tu allan i'r ysgol. Gall y delweddau hyn gael eu defnyddio mewn cyflwyniadau yn ystod gwersi dilynol. Gall delweddau hefyd gael eu defnyddio i ddathlu llwyddiant trwy eu cyhoeddi mewn cylchlythyron, ar wefan yr ysgol ac yn y cyfryngau cyhoeddus weithiau. Bydd yr ysgol yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data ac yn gofyn i rieni / ofalwyr am eu caniatâd cyn tynnu lluniau o aelodau'r ysgol. Byddwn hefyd yn sicrhau pan fydd delweddau'n cael eu cyhoeddi nad oes modd adnabod y bobl ifanc drwy ddefnyddio eu henwau. Gofynnir i rieni lofnodi'r ffurflen ganiatâd isod i ganiatáu i'r ysgol dynnu a defnyddio lluniau o'u plant.

Ffurflen Ganiatâd

Fel rhiant / gwarcheidwad cyfreithiol y myfyriwr a enwir, cytunaf y gall yr ysgol dynnu a defnyddio lluniau digidol / fideo o'm mhlentyn. Deallaf y caiff y lluniau eu defnyddio i gefnogi gweithgareddau dysgu yn unig neu mewn cyhoeddusrwydd sy'n dathlu llwyddiant ac yn hyrwyddo gwaith yr ysgol.

Fel rhiant / gwarcheidwad cyfreithiol y myfyriwr a enwir, rhoddaf fy nghaniatâd i'm mhlentyn gael mynediad i'r rhyngwrwd ac i systemau TGCh yn yr ysgol.

Cytunaf os wyf yn tynnu lluniau digidol neu fideo yn neu o ddigwyddiadau'r ysgol sy'n cynnwys lluniau o blant, heblaw fy mhlant i, y byddaf yn dilyn y canllawiau hyn wrth ddefnyddio'r lluniau hyn.

Enw'r Myfyriwr

Enw'r Rhiant / Gwarcheidwad
Cyfreithiol

Llofnodwyd

Dyddiad

Cytundeb Defnydd Derbyniol Myfyrwyr / Disgyblion

Ar y tudalennau canlynol, rydym wedi copïo, er gwybodaeth i rieni a Gwarcheidwaid Cyfreithiol, y Cytundeb Defnydd Derbyniol Myfyrwyr.

Awgrymir pan fydd y Polisi Defnydd Derbyniol Myfyrwyr yn cael ei lunio bod copi yn cael ei atodi wrth Gytundeb PDD Rhieni / Gwarcheidwaid Cyfreithiol i ddarparu gwybodaeth i rieni a gofalwyr am y rheolau a'r ymddygiad y mae myfyrwyr wedi ymrwymo iddynt wrth lofnodi'r ffurflen.